Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Nodyn Gwybodaeth: Her Gwâl y Dyfrgi



**Gostyngodd nifer y dyfrgwn yn ystod y 1950au, yn bennaf oherwydd defnyddio plaleiddiaid, hela a dinistrio cynefinoedd. Erbyn yr 1970au roedd dyfrgwn ar fin diflannu'n llwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ymdrechion cadwraeth a diogelwch cyfreithiol wedi cefnogi adferiad cyson yn y boblogaeth ar hyd afonydd ac arfordir Cymru.**

Mae dyfrgwn yn famaliaid swil, chwareus sydd wedi'u haddasu'n dda i fywyd yn y dŵr. Mae ganddyn nhw gorff hir, llyfn a all dyfu hyd at 1.2m o hyd mewn gwrywod (cŵn) ac 1m mewn benywod (geist).

Gyda'u traed gweog a'u cynffon bwerus, gallant nofio hyd at 12km yr awr dan y dŵr ond mae'n rhaid iddyn nhw ddod i'r wyneb i gael aer.

Maent yn bwyta pysgod, adar, mamaliaid bach, amffibiaid, cramenogion a molysgiaid yn bennaf.

Gall dyfrgwn fyw yn y rhan fwyaf o fathau o wlypdir gan gynnwys coetir gorlifdir, gwelyau cyrs, afonydd a chorsydd, lle mae dŵr llonydd a digon o isdyfiant.

Mae angen safleoedd 'swatio' diogel ar y dyfrgi nosol er mwyn gorffwys ynddyn nhw yn ystod y dydd.

Bydd safleoedd gorffwys naturiol i'w canfod dan wreiddiau coed ar lan y dorlan, neu mewn isdyfiant trwchus ger afonydd iach yn arbennig, dan wreiddiau coed ynn a derw aeddfed.

Mae ar bob dyfrgi angen tua 30 o safleoedd yn ei diriogaeth sy'n gallu bod hyd at 12 milltir yn achos dyfrgi gwryw.

Dros amser, cafodd llawer o goed ar lan y dorlan eu tynnu oddi yno, a hynny am nifer o resymau, megis amddiffyn rhag llifogydd, rheoli rhywogaethau goresgynnol, clefyd coed, ac ati. Yn sgil lleihau'r deunyddiau naturiol sydd ar gael i adeiladu gwaliau dyfrgwn mewn rhai ardaloedd aeth cadwraethwyr ati i osod gwaliau dyfrgwn artiffisial ar rai safleoedd. Mae'r defnyddiau a ddefnyddir ar gyfer eu creu yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael, y gost, hygyrchedd glan yr afon, ac ati. Maent yn cael eu hadeiladu lle nad oes llawer o aflonyddwch gan bobl a'u cŵn.

## Mae dyluniadau gwâl yn cynnwys:

- gwâl o bentwr coed wedi'i gwneud o foncyffion a malurion
- pibell wedi'i chladdu a gwâl siambr wedi'i hadeiladu o frisblociau, slabiau palmant a phibell ddraenio
- gwâl sy'n arnofio/rafft a gwaliau byw sy'n defnyddio pren helyg wedi'i dorri


# Nodyn Gwybodaeth: Her Gwâl y Dyfrgi

## Her Gwâl y Dyfrgi

**Beth am roi cynnig ar adeiladu gwâl dyfrgi?**

Bydd angen:

- lle mawr, gwastad
- mynediad at ddetholiad o foncyffion, polion a malurion
- gweithio fel rhan o grŵp



### Cam 1

Defnyddiwch y boncyffion i greu cynllun eich gwâl dyfrgi â'r nodweddion canlynol:

1. Mynedfa ar lan yr afon a mynedfa tua'r tir (lleiafswm 20cm o led)
2. ystafelloedd/coridorau rhyng-gysylltiedig (lleiafswm 25cm o led)
3. Siambr orwedd glyd (tua $50cm^2$)

### Cam 2

Defnyddiwch y polion i greu nenfwd fydd yn cynnal y to.

### Cam 3

Defnyddiwch y pentwr malurion i greu to a gorchuddio'r holl fylchau..

## Angen mwy o adnoddau dysgu, data a gwybodaeth?

E-bostiwch: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fersiwn/iaith arall neu brint bras:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk // 0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government